Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Garnedd
# Ffordd Penrhos
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 2LX

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Y Garnedd

Mae Ysgol y Garnedd yn ysgol gymunedol benodedig Gymraeg sy’n gwasanaethu dinas Bangor a phentrefi cyfagos. Mae 334 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr yn cynnwys 32 yn y meithrin. Maent wedi eu trefnu’n 12 dosbarth oed cymysg.

Ar gyfartaledd tros y tair blynedd ddiwethaf, mae 7.5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 12% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy’n is na’r ganran genedlaethol o 21% ac mae gan ychydig iawn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Daw 67% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae’r rhan fwyaf o gefndir gwyn Prydeinig gydag ychydig iawn o gefndir ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2012 a phenodwyd y pennaeth presennol yn 2014. Ar hyn o bryd, mae adeilad newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer yr ysgol, gyda’r bwriad o’i hagor ym mis Medi 2020.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ethos Cymreig sy'n treiddio trwy holl waith yr ysgol hon yn gryfder mawr. Mae'n gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo Cymreictod a datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau cyfeiriad clir i gynnal a gwella'r arferion effeithiol iawn sy'n bodoli yn yr ysgol. Maent yn cynnal amgylchedd o ddisgwyliadau uchel sy'n arwain yn llwyddiannus at gyflawniadau rhagorol y disgyblion a safonau uchel iawn o ran eu lles. Mae gan staff berthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion, ac maent yn darparu amgylchedd ddysgu cefnogol ac effeithiol iddynt. Mae ansawdd yr addysgu'n gyson dda iawn, ac mae gan athrawon hefyd ddisgwyliadau uchel o ran safon gwaith ac ymddygiad y disgyblion.

Mae agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu yn rhagorol ac maent yn dangos balchder mawr yn eu hysgol, eu cymuned a'u Cymreictod. Maent yn datblygu'n effeithiol iawn fel dysgwyr sy'n barod i ddyfalbarhau a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, mae eu medrau llythrennedd yn gryf, ac yn datblygu'n gyflym o oed cynnar. Ar draws yr ysgol, maent yn siarad a gwrando yn aeddfed, yn darllen ar lefel sydd o leiaf yn gyfystyr â'u hoed, ac yn ysgrifennu'n llwyddiannus iawn mewn amryw gyd-destunau diddorol ar draws y cwricwlwm.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar wefan Estyn ar ei gwaith mewn perthynas â hybu agweddau cadarnhol y disgyblion at eu dysgu.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn iawn. Maent yn cyflawni deilliannau sydd o leiaf yn cyfateb i’r hyn a ddisgwylir, gyda’r mwyafrif yn gwneud cynnydd sydd y tu hwnt i hyn. Mae’r rhan fwyaf yn adalw eu dysgu blaenorol yn dda ac yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn gyflym.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando’n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth gref o’r prif bwyntiau, a phan yn briodol, yn ymateb gan fynegi barn yn synhwyrol. Maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio’n naturiol ac yn raenus wrth sgwrsio gyda’i gilydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn trafod eu tasgau â hyder cynyddol gan ddefnyddio geirfa eang a chywir, er enghraifft wth drafod sut y gallent leihau sbwriel plastig o fewn yr amgylchedd. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu mewn modd hynod aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg ac yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn hyderus ac effeithiol mewn brawddegau estynedig. Nodwedd gref a chyson yw'r ffordd y mae'r disgyblion yn defnyddio iaith raenus yn naturiol a digymell. Maent yn hyderus wrth wneud cyflwyniadau neu wrth recordio clipiau fideo o’u hunain yn portreadu bywyd fel yr unig oroeswr ar ynys bell, er enghraifft.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n hynod effeithiol. Yn y dosbarth derbyn, mae bron pob un yn datblygu medrau darllen cynnar yn fuan ac yn magu hyder wrth fwynhau gweithgareddau cyfoethog. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r disgyblion yn dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau am eu dewis. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau synhwyrol pan fyddant yn darllen testunau anghyfarwydd er mwyn penderfynu ar yr ystyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn darllen yn glir ac yn llawn mynegiant yn y Gymraeg a Saesneg. Wrth ymateb i amrywiaeth eang o destunau, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o’r prif syniadau, y digwyddiadau a’r cymeriadau. Maent yn cywain gwybodaeth o fwy nag un ffynhonnell i atgyfnerthu eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am dai lleol sydd ar werth i greu hysbyseb disgrifiadol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu i safon uchel iawn at wahanol bwrpasau mewn ystod eang o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf yn datblygu'n hynod gadarn. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn ysgrifennu ystod effeithiol o frawddegau syml am eu hunain mewn portread. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu darnau diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth greu cerddi am wylanod y môr gan ddefnyddio ansoddeiriau’n effeithiol. Maent yn amrywio dechrau brawddegau, yn defnyddio geirfa Gymraeg eang a chyfoethog ac yn defnyddio cysyllteiriau priodol i greu effaith a diddordeb. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu’n feddylgar gan ddefnyddio geirfa goeth a dychmygus yn y ddwy iaith. Maent yn arddangos gafael sicr ar atalnodi ac yn sillafu’n gywir. Maent yn defnyddio paragraffau i gyflwyno’u gwaith yn drefnus, gyda’r rheini sy’n fwy abl yn defnyddio cystrawennau mwy amrywiol a chymhleth yn weddol gywir. Yn aml, maent yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geiriau ac ymadroddion, er enghraifft wrth greu cerddi o safon uchel ym Mlwyddyn 3 a 4. Mae eraill wedi creu

darnau creadigol, dychmygus gan wneud defnydd effeithiol o gymariaethau yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o fôr leidr. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n aeddfed mewn amrediad eang o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel, fel sgript effeithiol ar gyfer tywys ymwelwyr o amgylch Cadeirlan Bangor. Mae gwaith bron pob disgybl yn raenus a thaclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau rhifedd y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu cymhwyso i safon dda ar draws y cwricwlwm. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle, siâp, mesur, amser ac arian. Maent yn dehongli data yn gynyddol gywir ac yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, fel graffiau neu dablau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fathemateg ac yn cyflawni'n dda. Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm, yn enwedig o fewn eu hymchwiliadau gwyddonol a'u hastudiaethau hanesyddol. Un enghraifft dda o hyn yw'r ffordd naturiol maent yn defnyddio'u medrau rhif a data wrth gyfrifo'r cynnydd ym mhoblogaeth yr ardal yn ystod twf y diwydiant llechi. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson ac i'r un lefelau ag y maent mewn gwersi mathemateg.

Yn fuan ar ôl cychwyn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos medrau da wrth ddefnyddio cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi'u dysgu. Er enghraifft, maent yn rheoli tegan rhaglenadwy ac yn defnyddio'r cyfrifiadur i ysgrifennu brawddegau syml i ddisgrifio beth hoffent ei wneud ar y lleuad. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus iawn i gyflwyno gwybodaeth, fel trefnu data ar ffurf graff i ddangos y gwahanol fathau o ddail y maent wedi eu casglu. Maent yn cyfathrebu gydag eraill trwy ddefnyddio meddalwedd e-bost yn effeithiol ac yn dod yn gynyddol hyfedr wrth ddefnyddio'u medrau codio er mwyn creu darluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus iawn i greu cyflwyniadau ar ystod o themâu, gan ddefnyddio llechen a sgrin werdd yn effeithiol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu gwefan effeithiol iawn i ddenu ymwelwyr i Lanberis. Maent yn rhyngweithio â'u cyd-ddisgyblion ar-lein ac yn adnabod yn dda sut i adeiladu rhinweddau perthnasol o'r wefan. Mae'r rhain yn enghreifftiau nodedig o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o uchel. Maent yn frwdfrydig, yn hynod serchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac maent yn dangos balchder mawr yn eu hysgol, eu cymuned a'u Cymreictod. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n helaeth at greu ethos croesawgar, gan weithredu'n hollol naturiol ar yr hyn a nodir yng nghân yr ysgol, sef '... *deimli di'r gwres ar aelwyd glos yr ysgol'*.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn deall yn glir y gwahaniaeth rhwng da a drwg a'r hyn sy'n gywir neu anghywir. Maent yn ymwybodol o deimladau pobl eraill ac yn deall y cysyniad o chwarae teg. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ofalus iawn o'u cyfoedion ac yn talu sylw'n gydwybodol i'w hanghenion. Maent yn caniatáu i eraill siarad heb darfu, gan gydnabod eu cyfraniadau a dangos eu gwerthfawrogiad am eu syniadau mewn modd aeddfed iawn.

Nodwedd eithriadol o waith yr ysgol yw’r modd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn dyfalbarhau â’u tasgau ac yn awyddus i ‘ddal ati’ nes iddynt lwyddo. Maent yn bwrw at eu gwaith yn syth ar ddechrau sesiynau gan ddilyn cyfarwyddiadau a gofyn am gymorth pan fo’i angen. Mae’r disgyblion yn magu medrau meddwl yn effeithiol ac maent yn barod i holi er mwyn cyfoethogi eu dealltwriaeth o faterion penodol. Mae bron pob disgybl yn sylweddoli bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o'r broses ddysgu ac, o ganlyniad, maent yn fodlon iawn i ‘roi cynnig arall arni’ er mwyn llwyddo. Yn aml, wrth fyfyrio gyda’u partneriaid trafod, maent yn nodi a datblygu syniadau newydd yn dda sy’n gysylltiedig â’r pwnc dan sylw. Er enghraifft, maent yn ystyried y gwahanol fathau o gwestiynau y dylid eu gofyn mewn holiaduron am ailgylchu. Maent yn awyddus i archwilio pethau newydd ac i gymryd rhan weithredol mewn amrywiol weithgareddau. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio’n dda ar y cyfle i gynnig syniadau synhwyrol am y mathau o dasgau yr hoffent eu gwneud fel rhan o’u gwaith ar ddechrau pob thema benodol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn cydweithio’n effeithiol, yn trafod yn aeddfed, gan ddangos parch at deimladau a chyfraniadau eu cyd-ddisgyblion, ac yn datblygu perchnogaeth gynyddol am gynnwys eu gwaith.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol, ac yn enwedig y rhai hŷn, yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd amrywiol a gânt i wneud penderfyniadau ynglŷn â’r hyn sy’n digwydd yno. Mae gweithredu ar y syniadau a drafodir yn yr amrywiaeth eang o gynghorau disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac yn ystyried eu barn o ddifrif.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwneud dewisiadau iach gan werthfawrogi pwysigrwydd eu lles eu hunain a lles pobl eraill yn ddeallus. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we, gyda’r ‘arweinwyr digidol' yn gweithio’n ddyfal i atgoffa'u cyd-ddisgyblion am reolau'r rhyngrwyd ynghyd â’r perygl o ddatgelu manylion personol ar lein.

Mae llawer o’r disgyblion yn arddangos sensitifrwydd naturiol tuag at bryderon byd eang gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o faterion cyfoes fel llygredd plastig a’i effaith andwyol ar fyd natur. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o’u lle yn y byd. Er enghraifft, maent yn cymharu eu bywydau nhw â bywyd plant mewn gwledydd eraill fel Ecuador, ac yn astudio gweithgareddau sy’n ymwneud â chwpan pêl-droed y byd. Maent yn datblygu’n ddinasyddion moesegol a gwybodus trwy eu hadnabyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, goddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant. Mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i gynrychioli eu hysgol mewn Eisteddfodau a chystadlaethau chwaraeon, gan brofi llwyddiant da.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae ansawdd yr addysgu'n gyson gadarn ar draws yr ysgol, gyda’r staff yn sefydlu perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion ac yn darparu amgylchedd ddysgu gefnogol ac effeithiol iddynt. Mae gan athrawon reolaeth ddosbarth effeithiol, ac maent yn disgwyl safonau uchel o ymdrech ac ymddygiad gan y disgyblion. Maent yn annog y disgyblion i roi o’u gorau yn ystod gwersi a chyfrannu’n sylweddol at ethos gofalgar yr ysgol. Maent yn eu holi'n fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion yn llwyddiannus, ac ar adegau yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hymatebion ar lefel uchel. Mae’r athrawon yn rhoi adborth llafar amserol

a defnyddiol i'r disgyblion ac yn darparu sylwadau ysgrifenedig gwerthfawr iddynt er mwyn eu cynorthwyo'n briodol i wybod sut i wella eu gwaith ymhellach.

Nodwedd eithriadol o'r addysgu yw'r pwyslais mae rhan fwyaf o'r staff yn ei roi ar hyrwyddo Cymreictod ac agweddau cadarnhaol y disgyblion tuag at y Gymraeg. Maent yn modelu iaith Gymraeg raenus iddynt yn gyson, sydd yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu medrau llafar Cymraeg, gan sicrhau eu bod yn datblygu geirfa eang a choeth. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, sy'n hyrwyddo brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith yn llwyddiannus iawn. Mae'r pwyslais hwn yn arwain at ddefnydd cadarn y disgyblion o'r Gymraeg, boed yn y dosbarth, ar y buarth, gyda'i gilydd neu gydag oedolion, ac yn un o gryfderau amlwg yr ysgol gyfan.

Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu medrau amrywiol mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Nodwedd dda yw'r ffordd mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n deillio o drywyddau ymholi a osodwyd gan y disgyblion eu hunain. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion ynghyd â rhoi perchnogaeth iddynt dros eu dysgu.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar eu safonau llafar a darllen, a'u hysgrifennu estynedig a chreadigol. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Enghraifft nodedig yw'r cyfle a gaiff y disgyblion i ysgrifennu barddoniaeth yn seiliedig ar waith yr artist L.S. Lowry fel un o'r ffurfiau ysgrifennu amrywiol.

Mae'r cyfleoedd cyson a phwrpasol a roddir i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn sicrhau eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth goeth o sut i gyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio meddalwedd a chaledwedd eang yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'u medrau'n hyderus iawn mewn meysydd dysgu amrywiol ar draws y cwricwlwm.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen lle maent yn cael mynediad at dasgau annibynnol, heriol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio a darparu cyfleoedd cyson a da i ddisgyblion gaffael yr holl feysydd mathemategol o fewn gwersi. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd pwrpasol iddynt gymhwyso'u medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n dda, gyda'r ddarpariaeth barhaus yn herio disgyblion a datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wnânt o'r ardal allanol i gyfoethogi'r dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol ethos hynod ofalgar a chyfeillgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd cwrteisi, parch a dyfalbarhad disgyblion yn effeithiol iawn. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn tuag at sicrhau bod diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch yn bodoli, sy'n hybu gwerthoedd yr ysgol yn arbennig. Mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol ac

emosiynol y disgyblion yn hynod effeithiol. Enghraifft arbennig o hyn yw'r ffordd mae'n datblygu'r meddylfryd o ddyfalbarhad a gwydnwch yn y disgyblion, sy'n nodwedd gref ar draws yr ysgol. Nodwedd eithriadol arall yw'r gofal sydd gan ddisgyblion dros ei gilydd, sy'n cynnwys gweithredu fel 'cyfeillion caredig' i gefnogi disgyblion sy'n teimlo'n unig neu'n isel yn ystod amser egwyl a chinio.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol a chyson. Mae arweinwyr ac athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac, at ei gilydd, yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata i gynllunio'r camau nesaf a darpariaeth briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. O ganlyniad, mae staff ac arweinwyr yn darparu cefnogaeth ac ymyraethau effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, yn unol â'u hanghenion. Mae'r cynlluniau dysgu unigol a'r proffiliau ar gyfer y disgyblion hyn yn cynnwys camau cynnydd a thargedau clir, heriol a chyraeddadwy. Mae strategaethau i sicrhau mewnbwn buddiol y disgyblion i'r cynlluniau yn datblygu'n dda ac mae rhieni'n cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu tuag at eu cynnwys a'u hadolygu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag arbenigwyr allanol er mwyn sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi bod yn flaengar wrth sicrhau cefnogaeth gadarn i'r disgyblion hyn. Er enghraifft, maent wedi sicrhau darpariaeth arbenigol lwyddiannus ac effeithlon ar gyfer grŵp o ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu tebyg.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn ac effeithiol gyda'r rhieni. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth fuddiol a rheolaidd gyda nhw am weithgareddau'r ysgol trwy gyfrwng cylchlythyron, negeseuon testun a gwefannau cymdeithasol. Mae adroddiadau i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir eu cryfderau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn symud y dysgu ymlaen.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am fwyta'n iach ac ymgymryd â sesiynau ymarfer corff. O ganlyniad, mae gan bron bob un o'r disgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach ac effaith fuddiol ymarfer corff.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol, er enghraifft trwy fod yn aelodau o'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r 'dewiniaid digidol'. Mae'r disgyblion hyn yn cymryd eu rolau o ddifrif gyda'u cyfraniad yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod 'Llyfrau Llais Plant' defnyddiol ar gael ym mhob dosbarth a chyflwyno gwersi buddiol i ddisgyblion ar bwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digon cyson i gynrychiolaeth ehangach o'r disgyblion dderbyn cyfrifoldebau a chwarae rhan lawn wrth wneud penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod cyfleoedd hynod werthfawr i'r disgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r gymuned leol a'r byd ehangach. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog iawn. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwahodd ymwelydd o'r brifysgol i drafod y difrod a wnaiff plastig i fywyd gwyllt y môr, a threfnu sgwrs dros y we gydag arbenigwr o Ecuador i drafod effaith datgoedwigo ar y fforestydd glaw.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu'n bwrpasol yn ystod gwasanaethau, trwy arwain y gweddïo neu ganu'r piano. Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth eang i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion yn effeithiol iawn. O ganlyniad, caiff bron pob un o'r disgyblion gyfleoedd buddiol i ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol. Er enghraifft, maent yn astudio ac efelychu gwaith artistiaid ac awduron lleol a pherfformio mewn eisteddfodau, cyngherddau a gwasanaethau yn rheolaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n arbennig tuag at ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymreig a magu eu hunanhyder yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr at fater iechyd a diogelwch.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth effeithiol i'r ysgol, sy'n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer ei datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae ganddo ef a'r arweinwyr eraill ddisgwyliadau uchel iawn wrth hybu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar greu awyrgylch cefnogol sy'n hyrwyddo lles ac ymestyn safonau'r disgyblion mewn amgylchedd naturiol Cymreig. Caiff y weledigaeth ei rhannu'n hynod lwyddiannus ymhlith y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r awch a'r brwdfrydedd angerddol sy'n bodoli ymysg y staff yn llwyddo i ddatblygu agweddau cadarnhaol ym mron pob un o'r disgyblion i gyrraedd safonau uchel, ac i ymfalchïo yn eu cyflawniadau a'u Cymreictod.

Mae strwythur rheoli'r ysgol yn effeithiol iawn, gyda chyfrifoldebau yn cael eu dosrannu'n synhwyrol ymysg tîm cryf o arweinwyr cydwybodol. Mae'r strwythur hwn yn cynnig profiadau hynod werthfawr i'r staff ddatblygu'n broffesiynol a rhannu arferion da. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi datblygu'n gymuned ddysgu gref lle mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn. Mae eu parodrwydd i gyd-gynllunio profiadau diddorol ac ysgogol i'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at y safonau uchel sy'n bodoli, yn arbennig ym maes llythrennedd, ac yn cynnwys enghreifftiau o ysgrifennu creadigol eithriadol a medrau siarad a gwrando campus.

Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn hynod effeithiol ac yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol yn glir o ran cynnydd a safonau disgyblion, ynghyd â'r mannau sydd angen eu gwella er mwyn ei datblygu ymhellach. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn adnabod elfennau o waith yr ysgol sy'n addas i'w rhannu fel enghreifftiau o arfer dda. Er enghraifft, mae staff wedi trafod effeithiolrwydd adnoddau a gynhyrchwyd ganddynt i annog y disgyblion i ddilyn eu trywyddau ymholi o fewn eu themâu yn dymhorol. Mae'r adnoddau hyn, sydd o ansawdd uchel iawn, yn cyfrannu'n hynod effeithiol at hybu medrau ymchwilio'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus iawn i'w blaenoriaethau gwella gan roi ffocws clir ar werthuso cynnydd ac adnabod effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r disgyblion. Er enghraifft, mae wedi dechrau mabwysiadu agweddau o'r cwricwlwm newydd i Gymru'n llwyddiannus, yn enwedig wrth godi safonau iechyd a lles y disgyblion. Yn ogystal, mae'r trefniadau i ddatblygu annibyniaeth y disgyblion trwy fagu eu medrau dyfalbarhau, a'u gallu i ganolbwyntio a chydweithio'n effeithiol, yn

datblygu'n gadarn.  Mae pwyslais arweinyddiaeth ar hybu'r iaith Gymraeg a Chymreictod yn cael effaith eithriadol o lwyddiannus ar safonau uchel y disgyblion ac mae wedi gwneud cynnydd ardderchog wrth hybu eu medrau llafar yn y Gymraeg.

Mae'r pwyslais strategol ar ddatblygu lles disgyblion a'r staff yn gryfder mawr.  Er enghraifft, mae gweithgareddau cefnogi fel datblygu medrau gwydnwch a dyfalbarhad yn arwain yn llwyddiannus iawn at godi hyder a pharodrwydd y disgyblion wrth ymateb i heriau newydd.  Yn ogystal, mae cefnogaeth arweinyddiaeth yr ysgol tuag at hybu iechyd y staff yn cyfrannu'n dda at sicrhau eu lles o fewn y gweithle.  O ganlyniad, mae'r holl staff yn dangos brwdfrydedd egnïol sy'n sbarduno'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth hynod gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r ysgol ar safonau a lles y disgyblion.  Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol er mwyn gwerthuso effaith yr addysgu a'r gynhaliaeth a roddir i'r disgyblion.  Trwy ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi gwersi, craffu ar waith, siarad â disgyblion ac arsylwi ar ddatblygiadau fel y cwricwlwm newydd i Gymru, mae ganddynt wybodaeth gyfredol ddeallus iawn o waith yr ysgol.  O ganlyniad, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol ac yn chwarae eu rhan yn llwyddiannus wrth osod arweiniad a strategaethau clir ar gyfer ei datblygu ymhellach.

Mae gwariant ac adnoddau wedi eu cysylltu'n synhwyrol â blaenoriaethau gwelliant ac mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnal amrywiaeth o strategaethau cefnogol ar gyfer datblygu unigolion penodol.  O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn dangos ymroddiad diffuant tuag at eu gweithgareddau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu safonau a'u lles.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2019